

Templed: Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Bro Lliffon
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	140
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	7.1%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	1/10/26
Dyddiad y caiff ei adolygu	Mawrth 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Arweinydd GDD yr ALI
Yn arwain ar y GDD	Pennaeth
Llywodraethwr sy'n arwain	Sara Edwards

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£10,350

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Cyfrannu at ddatblygu lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion drwy weithredu dulliau diagnostig a systemau tracio effeithiol, megis Moodtracker a grwpiau ELSA, er mwyn adnabod anghenion yn gynnar ac addasu darpariaeth yn unol â hynny. Ein nod yw meithrin disgyblion hyderus, gwydn ac emosiynol iach sydd yn barod i ddysgu a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Cefnogir hyn drwy ddarparu ymyriadau pwrpasol, monitro cynnydd yn rheolaidd a chynnig profiadau cyfoethogi ehangach, gan gynnwys cyfranogiad mewn teithiau ac ymweliadau addysgol sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth a lles cyffredinol.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gwella lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu.	Data Moodtracker a gwerthusiadau lles yn dangos gwelliant ymhlith y disgyblion targed erbyn diwedd y flwyddyn.
Cynyddu gallu disgyblion i reoli emosiynau, meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac ymgysylltu â dysgu	Mae athrawon yn adrodd am well ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltiad yn y dosbarth ymhlith y disgyblion a gefnogir.
Sicrhau bod disgyblion bregus yn cael mynediad cyfartal at brofiadau cyfoethogi ac allgyrsiol.	Mae nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn teithiau, ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn cynyddu, gyda thystiolaeth o effaith gadarnhaol ar hyder a sgiliau cymdeithasol.
Adnabod ac ymateb yn gynnar i anghenion lles disgyblion.	Defnyddir data tracio lles yn gyson i lywio ymyriadau ac mae'r anghenion a nodwyd yn cael eu cefnogi mewn modd amserol.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ariannu cymhorthydd ELSA er mwyn darparu cymorth cymdeithasol ac emosiynol wedi'i dargedu i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Bydd hefyd yn galluogi'r cymhorthydd i gael amser digyswllt ar gyfer cynllunio ymyriadau, paratoi adnoddau a monitro cynnydd disgyblion, ynghyd â mynediad at hyfforddiant perthnasol. Nod y ddarpariaeth yw gwella lles, gwydnwch, hyder ac ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ 10,350

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Defnyddio systemau tracio a monitro lles, gan gynnwys Moodtracker, i nodi anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn gynnar.	Mae ymchwil yn dangos bod adnabod anghenion yn gynnar a monitro cynnydd yn rheolaidd yn gwella effeithiolrwydd ymyriadau lles a chynnydd disgyblion.
<i>Darparu grwpiau ELSA ac ymyriadau emosiynol wedi'u targedu ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.</i>	Mae dulliau sy'n datblygu sgiliau hunanreoleiddio, gwydnwch a deallusrwydd emosiynol yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymgysylltiad â dysgu.
<i>Cyfrannu tuag at gostau teithiau addysgol a gweithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion cymwys.</i>	Mae profiadau cyfoethogi yn ehangu gorwelion disgyblion, yn cryfhau sgiliau cymdeithasol ac yn cefnogi eu datblygiad personol a'u lles.

<i>Monitro ac arfarnu effaith ymyriadau lles drwy, arsylwadau a llais y disgybl.</i>	Mae gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu'n effeithiol a bod darpariaeth yn cael ei haddasu yn ôl yr angen.
--	--

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
N/A	

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
N/A	

Cyfanswm cost y ceisiadau: £10,350

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym flwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Y bwriad yw cryfhau lles, hyder a gwydnwch disgyblion er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd cadarnhaol yn eu dysgu ac yn eu datblygiad personol.	Darparwyd cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion cywys drwy gyllid y GDD. Roedd * disgybl yn derbyn ymyriadau mewn llythrennedd, rhifedd neu'r ddau faes, tra bod * disgybl wedi elwa o gymorth emosiynol drwy grŵp ELSA. Dangosodd y rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd yn eu sgiliau academaidd, eu hyder a'u hymgyssylltiad â dysgu o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd. Llwyddodd * ddisgybl i gyrraedd y lefel cyflawniad ddisgwyliedig erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Roedd monitro rheolaidd yn sicrhau bod cymorth yn cael ei addasu'n briodol i anghenion unigol,

	gan gyfrannu at well cynnydd, lles ac ymgysylltiad â bywyd yr ysgol.
--	--

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
N/A wedi ei ariannu drwy'r GDD	